**Ysgol Pentreuchaf**
(Prifathro/Headteacher: Mr G.E Thomas)
Pentreuchaf, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8DZ.
Ffôn/Tel – 01758 750 600 / 07584613603
ebost/email - : pennaeth@ysgolpentreuchaf.org
Gwefan/web: www.ysgolpentreuchaf.org

Ebrill 2015

# Newyddlen Tymor yr Haf 2015

| Rhai manylion am y dosbarthiadau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***Dosbarth Meithrin*** | **Dosbarth Mrs Roberts** | **Dosbarth Miss Jones** | ***Blwyddyn 3 a 4*** | ***Blwyddyn 5 a 6*** |
| **Athro(awes) / Cymhorthydd** | ***Miss Angharad Jones*** *Miss Nia Hicks Mr Dyfed Pritchard (cynllun Cam wrth Gam)* | **Mrs Delyth Roberts** / Mrs Heulwen Hughes / Miss Catrin Richards | ***Miss Sara Jones*** / *Mrs Bet Richards / Miss Sophie Underwood* | ***Mrs Einir Humphreys*** *(Dirprwy Bennaeth) / Miss Julie Davies / Miss Angharad Jones / Mrs Wendy Jones (pnawn)* | ***Miss Lisa Jones (dros dro)*** / *Miss Julie Roberts* |
| | ***Mrs Manon Griffiths*** *– Cyfnod Sylfaen – Dydd Iau* | | | ***Mr Gethin Thomas*** *(Prifathro) – Bl 5/6 Dydd Mawrth Bl3/4 Dydd Mercher Chwaraeon – Pnawn dydd Mawrth (CPD Wrecsam bore dydd Iau) (Bl5/6) a Dydd Mercher (Bl 3/4)* | |
| **Gwaith Cartref Llyfrau Darllen Addysg gorfforol** | ***Gweler llythyrau gwybodaeth gan yr athrawon*** | | | | |

**Arian cinio**

**£10.25** yr wythnos (**i'w dalu ar ddydd Llun**)

**Arian llefrith**
50c yr wythnos (**i'w dalu ar ddydd Llun**)Bydd Cyfle i dalu'n dymhorol (£7.40)

***Bl 3,4,5 a 6 yn unig.***

Gwisg ysgol / Hwdis

I'w harchebu drwy'r ysgol. Ffoniwch Mrs Sioned Roberts-Williams am fanylion. Gofalwch fod enw eich plentyn/plant ar bob darn o ddilledyn!

## Presenoldeb a phrydlondeb

Yn Ysgol Pentreuchaf, rydym yn ystyried presenoldeb a phrydlondeb yn bethau pwysig iawn – er mwyn i'ch plentyn/plant fanteisio'n llawn ar addysg a bywyd yr ysgol. Mae'n bwysig bod y plant yma'n rheolaidd erbyn 8.55 er mwyn eychwyn ar ddiwrnod cyffrous arall yn brydlon am 9.00!

.

Rydym, wrth gwrs, yn deall bod plant yn sâl neu'n methu dod i'r ysgol am resymau eraill yn achlysurol. Pan fo hyn yn digwydd, a fuasech cystal a ffonio'r ysgol os gwelwch yn dda a danfon nodyn ysgrifenedig pan mae eich plentyn/plant yn dychwelyd.

YR YSGOL SYDD A CHYFRIFOLDEB DROS EICH PLENTYN/PLANT O 8.50yb YMLAEN

*"Gallwn roi dau beth pwysig i'n plant, un yw gwreiddiau a'r llall yw adenydd"*

# Ysgol Pentreuchaf

(Prifathro/Headteacher: Mr G.E Thomas)
Pentreuchaf, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8DZ.
Ffôn/Tel – 01758 750 600 / 07584613603
ebost/email - : pennaeth@ysgolpentreuchaf.org
Gwefan/web: www.ysgolpentreuchaf.org


**Adran ddiogel Gwefan Ysgol**
***www.ysgolpentreuchaf.org***

**Er mwyn gweld llythyrau, lluniau a'r wal fideo, mae'n rhaid rieni ddefnyddio cyfrinair arbennig er mwyn cael mynediad:-**

***rhiant***
***Patagonia14***

## PWYSIG - Negeseuon Testun

Yn ein hymdrech i arbed arian (a choed!) byddwn yn anfon negeseuon testun. Felly, os na ydych wedi derbyn negeseuon gan '*ysgolpentre*' hyd yma, a fuasech cystal a rhoi gwybod i ni beth yw eich rhif ffôn symudol cyn gynted a phosib os gwelwch yn dda.

twitter

Mae'r ysgol yn trydar! Dilynwch ni ar @ysgolpentre
neu
ar dudalen cartref ysgolpentreuchaf.org
Yma cewch weld Sêr yr Wythnos, lluniau a'r diweddaraf o Ysgol Pentre'!

## Arian mewn amlen

Gofynnwn yn garedig i chi roi unrhyw arian mewn amlenni ar wahân a nodi arno beth rydych yn ei dalu, enw eich plentyn a'i ddosbarth.

## Siôp Ffrwythau

**£1 yr wythnos (i'w dalu ar ddydd Llun os gwelwch yn dda) neu bob ½ tymor e.e. £7.00.**

**MAE ANGEN I'R ARIAN FOD MEWN AMLEN AR WAHAN WEDI'I LABELU 'SIOP FFRWYTHAU' OS GWELWCH YN DDA.**

## Teganau

**Mae'r ysgol yn croesawu ac yn annog y disgybion i ddod ag adnoddau sy'n gysylltiedig â thema'r dosbarth yn unig.**

## Trefniadau mynd adra

Os oes unrhyw newid yn nhrefniadau mynd adra eich plentyn, a fuasech cystal a hysbysu'r ysgol drwy lythyr, ebost, neu ffonio'r ysgol cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda.

## ABSENOLDEB O ACHOS SALWCH

Fel arfer bydd pobl yn gwella'n llwyr o symtomau dolur rhydd a chwydu o fewn ychydig ddyddiau. Ond, gall fod yn fwy difrifol i blant sy'n agored i niwed felly **arhoswch tan o leiaf 48 awr ar ôl i'ch symtomau orffen** cyn dychwelyd i'r ysgol.

Gweler Cyfarwyddyd ar Reoli Heintiau mewn Ysgolion Gwynedd ar:
http://ysgolpentreuchaf.org/downloads/200114-cyfarwyddyd-ar-reoli-heintiau.pdf

*Oriau gweithio Sioned Roberts-Williams, Swyddog Gweinyddol.*
***SionedMeleriRoberts@gwynedd.gov.uk***

*Os ydych yn dymuno trafod materion gweinyddol megis arian cinio, llefrith, arian teithiau addysgol, a fuasech cystal a chysylltu gyda Anti Sioned os gwelwch yn dda.*

*Llun: 9.00 – 11.00*
*Mawrth: 9.00 -11.00*
*Gwener : 9.00 – 15.00*

**Ysgol Pentreuchaf**
(Prifathro/Headteacher: Mr G.E Thomas)
Pentreuchaf, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8DZ.
Ffôn/Tel – 01758 750 600 / 07584613603
ebost/email - : pennaeth@ysgolpentreuchaf.org
Gwefan/web: www.ysgolpentreuchaf.org

## Dyddiadau i'r dyddiadur

- **14/04/15 -** Tomos Sorsby, Prifysgol Bangor - Prosiect technoleg hefo CA2
- **16/04/15** - Sesiynau CPD Wrecsam Bl 5/6 (*16; 23; 30 Ebrill 2015*)
- **17/04/15** - Ymweliad PC Dewi Owen i'r ysgol.
- **20/04/15** - cystadleuaeth pêl-droed merched yr urdd, Porthmadog 4.00yh
- **22/04/15** –Sesiynau **Dawns i Bawb** i ddisgyblion Bl 3/4 (22;29/4; 13;20;22/5)
- **22/04/15** – Noson Rieni
- **23/04/15 -** Noson Rieni
- **23/04/15** - Cystadleuaeth pêl-droed bechgyn yr urdd, Porthmadog 4.00yh
- **04/05/15** - Gŵyl Banc Calan Mai
- **05/05/15 – 12/05/15 – Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol**
- **?**?/??/?? – Taith gerdded hanesyddol chwarel Nant Gwrtheyrn dan arweiniad John Dilwyn Williams (Bl 3-6)
- **15/05/15 –** Ymweliad Saesneg YGM i Bl6
- **18/05/15** – **20/05/15** – Taith Blwyddyn 6 i Gaerdydd.
- **22/05/15** – Gwasanaeth Nia Williams.

**05/05/15 – 12/05/15 –**
**Gwyliau Hanner Tymor / Eisteddfod yr Urdd Caerffili a'r Cylch**

- **05/06/15** - Croesawu Disgyblion Yr Hendref, Patagonia i'r ysgol
- **06/06/15** - Diwrnod Agored Patagonia / Gŵyl Hirddydd Haf (Ysgol Pentreuchaf) - Mwy o wybodaeth i ddilyn!
- **06/06/15**– Cyngerdd Patagonia, Neuadd Dwyfor (cysylltwch gyda Neuadd Dwyfor am fwy o fanylion!)
- **08/06/15** - **10/06/15** - Taith Blwyddyn 5 i Wersyll yr Urdd, Glan-llyn.
- **10/06/15 –** Taith Cyfnod Sylfaen i Fferm Cae Graig, Efailnewydd.
- **17/06/15 -** Diwrnod Cartrefu Blwyddyn 6 yn **Ysgol Botwnnog.**
- **17/06/15** – Athletau Dalgylch Blwyddyn 3 a 4, Canolfan Hamdden Dwyfor.
- **17/06/15** – Cwis llyfrau Cenedlaethol Ysgol Pentreuchaf yn cynrychioli Gwynedd yn Aberystwyth!
- **19/06/15** –Taith Blwyddyn 6 (a rhieni sy'n dymuno) i gopa'r Wyddfa.
- **18/06/15** -Diwrnod Agored. Cyfle i'r plant gyflwyno eu gwaith i rieni / gofalwyr.
- **23/06/15** – Mabolgampau Ysgol (12.30 – 3.00)
- **24/06/15** – Athletau Dalgylch Blwyddyn 5/6, Canolfan Hamdden Dwyfor.
- **03/07/15** – Diwrnod Cartrefu Blwyddyn 6 yn **Ysgol Glan y Môr**.
- **06/07/15** - Ymweliad PC Dewi Owen i'r ysgol.
- **17/07/15** – Ysgol yn cau am wyliau haf.

**Cofiwch edrych am fwy o ddyddiadau pwysig mewn llythyrau ac ar ddyddiadur gwefan yr ysgol!**

**Os oes angen manylion ychwanegol arnoch, neu os ydych eisiau trafod unrhyw agwedd o fywyd ysgol eich plentyn/plant, rydym yn barod iawn i gael sgwrs â chwi.**

***Yn gywir,***
***Gethin Elis Thomas***